# CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT (FLVC)

# POLISI AELODAETH FLVC 2026/7

**1) <u>Datganiad</u>**

FLVC ydy'r corff ymbarél a chefnogi i grwpiau gwirfoddol a chymunedol (y trydydd sector) yn Sir y Fflint. Fel y corff ymbarél lleol, mae'n darparu amrediad o wasanaethau cefnogi ac yn gweithio i sicrhau bod y 'trydydd sector' wedi'i gynrychioli'n llawn ac yn gallu cyfrannu at ddatblygiadau gwasanaethau a chynllunio lleol. Mae FLVC yn ymrwymo i adeiladu sail aelodaeth eang er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y sector a sicrhau ei fod yn atebol i'w aelodau.

**2) <u>Rheolau a Deddfau Lleol</u>**

O dan Erthygl 24 gall Bwrdd yr Ymddiriedolwyr osod rheolau a deddfau lleol sy'n rheoli pob agwedd o'r aelodaeth gan gynnwys: mynediad; hawliau a breintiau; amodau a thelerau; ffioedd/taliadau; gwrthod, tynnu'n ôl neu wahardd aelodaeth.

**3) <u>Categorïau Aelodaeth</u>**

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi dynodi'r categorïau aelodaeth canlynol:

### *Aelodaeth lawn*

Ar gael i sefydliadau/grwpiau gwirfoddol/cymunedol dielw a CIC cyfyngedig drwy Warant, sy'n gweithredu yn Sir y Fflint ac sy'n cefnogi gwaith FLVC. Bydd gan aelodau llawn yr hawliau canlynol:

- **(i) enwebu ymgeiswyr i'w hethol ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a phleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol.**
- **(ii) derbyn hysbysiad am bob cyfarfod cyffredinol; a**
- **(iii) rhoi cynigion gerbron cyfarfodydd cyffredinol.**

### *Aelodaeth gyswllt*

***Unigolyn –*** ar gael i unigolion sy'n cefnogi gwaith FLVC.
***Sefydliadol*** ar gael i sefydliadau na allant fod yn aelodau llawn, e.e., busnesau preifat, CIC cyfyngedig drwy gyfranddaliadau a sefydliadau statudol sy'n cefnogi FLVC.
***Bydd gan aelodau cyswllt yr hawliau canlynol:***

- **(i) derbyn hysbysiad am bob cyfarfod cyffredinol; a**
- **(ii) hawl i fynychu a siarad mewn cyfarfod cyffredinol ond nid i bleidleisio.**

**4) <u>Amodau Aelodaeth</u>**

Mae'n rhaid i bob aelod:

- (i) gefnogi amcanion a gwerthoedd FLVC fel sydd wedi'u nodi yn ei Erthyglau Cwmni a pholisïau a gweithdrefnau cefnogi.
- (ii) llenwi ffurflen aelodaeth yn llawn, gan gynnwys nodi eu dewisiadau cysylltu, fel bod FLVC yn gallu cyflawni ei orfodaeth o dan reoliadau GDPR
- (iii) talu'r tâl aelodaeth blynyddol priodol, a
- (iv) sicrhau bod eu cais am aelodaeth wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd FLVC.

**Aelodau llawn:**

*Mae'n rhaid i sefydliadau'r Trydydd Sector sy'n ymgeisio am aelodaeth lawn hefyd ddarparu copi o'u dogfen lywodraethu bresennol (cyfansoddiad/rheolau).*

**5) <u>Buddion i Aelodau</u>**

*Bydd* FLVC *yn darparu'r buddion canlynol i aelodau:*

- Gwiriad iechyd rheolaidd ac am ddim i'ch sefydliad neu ymweliad Gwrando Arnoch Chi.
- Hysbysebu eich swyddi gwag am ddim ar wefan FLVC.
- Blaenoriaeth wrth archebu lle ar gyfer digwyddiadau a hyfforddiant.
- Mynediad at weithdai am ddim ar bynciau sy'n gysylltiedig â nawdd, llywodraethu, rheoli gwirfoddolwyr.
- Rhoi blaenoriaeth i eitemau gan aelodau gael eu cynnwys ar e-fwletin FLVC gaiff ei ddosbarthu i gannoedd o bobl allweddol o'r trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus yn Sir y Fflint.
- Gwahoddiad i gymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori a grwpiau ffocws arbennig.
- Cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion ar lefel leol a chenedlaethol.

**6) <u>Tâl Aelodaeth</u>**

Bydd y Bwrdd yn gosod ac yn adolygu'r tâl aelodaeth o bryd i'w gilydd. Mae'r tâl aelodaeth ar gyfer y flwyddyn aelodaeth o Ebrill 2022 - Mawrth 2023 fel a ganlyn:

**Aelodau llawn:** ***AM DDIM***

**Aelodau cyswllt (i)** ***Unigolyn*** ***AM DDIM***

**(ii)** ***Sefydliad*** ***AM DDIM***

**7) <u>Blwyddyn Aelodaeth</u>**

Bydd y flwyddyn aelodaeth yn rhedeg o Ebrill 1 hyd at Fawrth 31. Caiff rhybudd ei anfon at yr aelodau mewn da bryd iddynt adnewyddu eu haelodaeth.
Bydd aelodaeth yn cael ei hadnewyddu'n awtomatig bob blwyddyn oni bai bod deiliad yr aelodaeth neu'r sefydliad yn hysbysu. Bydd manylion cyswllt yn cael eu cadarnhau ddwywaith y flwyddyn trwy gais digidol i'r cyfeiriad e-bost cofrestredig.

**8) <u>Tystysgrif Aelodaeth</u>**

Pan fydd y ffurflen gais wedi'i llenwi a'i dychwelyd gyda'r tâl aelodaeth priodol (lle bo'n berthnasol), bydd Bwrdd FLVC yn ystyried y cais ac, os caiff ei gymeradwyo, caiff yr aelod ei gynnwys ar ein bas data aelodaeth a bydd yn derbyn tystysgrif aelodaeth wedi'i harwyddo fydd yn ddilys am flwyddyn. Os bydd newidiadau i ddogfennau llywodraethu unrhyw sefydliad, bydd gofyn i'r sefydliad hwnnw rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda FLVC.

**Os oes arnoch chi angen gwybodaeth bellach, cysylltwch gyda FLVC ar**
**01352 744000**
**E-bost: info@flvc.org.uk**

**Datganiad Preifatrwydd**

**Ffurflen Aelodaeth FLVC**

Cyflwyniad: Mae Cyngor Gweithredu Lleol Sir y Fflint (FLVC) yn ymrwymo i ddiogelu a pharchu eich preifatrwydd.

Pa ddata personol byddwn ni'n ei gasglu: Mae'n debyg y byddwch chi'n rhannu gwybodaeth gyda ni amdanoch chi wrth gofrestru eich sefydliad neu eich hun i ddod yn aelod, neu wrth ichi lenwi ffurflenni mewn digwyddiad neu ar-lein, neu drwy gysylltu gyda ni dros y ffôn, e-bost neu fel arall. Gall yr wybodaeth hon gynnwys eich enw, manylion am eich sefydliad gan gynnwys cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a gwybodaeth fwy penodol.

Pam ein bod ni angen eich data personol a sut byddwn ni'n ei ddefnyddio: Mae arnom ni angen eich data er mwyn gallu darparu gwasanaeth aelodaeth ichi. Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol ydy fod gennym ni fuddiant dilys i weinyddu a darparu'r gwasanaethau rydych chi'n cofrestru ar eu cyfer gan gynnwys gwahoddiadau i gyfarfodydd, anfon cylchlythyrau, diweddaru tanysgrifiadau blynyddol a rhoi'r diweddaraf ichi yn gyffredinol gyda gwybodaeth all fod yn berthnasol i'ch sefydliad.

Datgelu a rhannu eich data personol: Oni nodir yn wahanol yn y polisi hwn, ni fyddwn ni'n datgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw drydydd barti. Nid ydym yn gwerthu na throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol at ddibenion hysbysebu nac unrhyw reswm masnachol arall. Caiff yr wybodaeth ei defnyddio'n fewnol gan FLVC wrth weinyddu ei aelodaeth, ateb unrhyw ymholiadau a bydd ar gael i'r asiantaethau hynny sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda FLVC, lle bo'n berthnasol (er enghraifft, cyflenwyr gwasanaeth TGCh). Efallai y byddwn ni'n rhannu data dienw gyda'n partneriaid fel amod o dan ein telerau cyllido neu yn yr un modd er mwyn adrodd ar wybodaeth ddienw mewn cyhoeddiadau fel yr Adroddiad Effaith Blynyddol. Efallai bydd FLVC yn rhannu gwybodaeth am ba grwpiau/sefydliadau sydd ar gael mewn ardal ond dim ond pan fyddwch chi wedi caniatáu hynny yn dilyn cais clir ar y Ffurflen Gofrestru Aelodaeth.

Sut byddwn ni'n storio eich data personol: Nid ydym ni'n trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Nid oes unrhyw un o'r darparwyr gwasanaeth rydym ni'n eu defnyddio i'n helpu ni yn gweithio y tu allan i'r AEE. Byddwn ni'n cymryd pob cam sy'n rhesymol angenrheidiol i sicrhau y caiff eich data ei drin yn ddiogel ac yn unol â'r datganiad preifatrwydd hwn.

Pa mor hi fyddwn ni'n cadw eich data personol: Ni fyddwn ni'n cadw eich data y tu hwnt i'r cyfnod sy'n angenrheidiol. Caiff eich data personol ei waredu yn ddiogel ac yn amserol yn unol â'n polisi cadw data a rheolau cyfreithiol perthnasol.

Eich hawliau yn ymwneud â'ch data personol: Fel deilydd data efallai bydd gennych chi'r hawliau canlynol

- Hawl i gael gwybod bod eich data yn cael ei brosesu,
- Hawl i gael mynediad at eich Data Personol,
- Hawl i gyfyngu ar brosesu data mewn rhai amgylchiadau,
- Hawl i gywiro data os ydy data yn anghywir neu anghyflawn,
- Hawl i ddileu gwybodaeth oni bai bod rhesymau pwysig inni ei chadw,
- Hawl i gludo copi o'r wybodaeth sydd gennym ni ar eich cyfer,
- Hawl i wrthod sut rydym ni'n defnyddio eich gwybodaeth (gweler isod),
- Hawl i beidio â bod yn destun prosesau gwneud penderfyniadau awtomatig gan gynnwys proffilio.

Fel deilydd data nid oes gorfodaeth arnoch chi i rannu eich data personol gyda FLVC. Os byddwch chi'n penderfynu peidio â rhannu eich data personol gyda ni, efallai na fyddwn ni'n gallu darparu rhai gwasanaethau ichi.

Sut i gysylltu gyda ni: Fe allwch chi benderfynu peidio â derbyn gohebiaeth neu newid sut rydym ni'n cysylltu gyda chi ar unrhyw adeg. Cysylltwch gyda ni os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am ein datganiad preifatrwydd neu wybodaeth sydd gennym ni ar eich cyfer. Ffôn: 01352 744000 neu E-bost: info@flvc.org.uk

Sut i wneud cwyn: Os ydych chi'n teimlo bod eich data personol wedi'i gam-drin, fe allwch chi wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd ar eu gwefan neu ffonio'r llinell gymorth ar 0303 123 1113.